Adroddiad ar y ddarpariaeth addysg bellach yn

# Y Coleg Merthyr Tudful

Ynysfach
Merthyr Tudful
CF48 1AR

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Y Coleg Merthyr Tudful

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Y Coleg Merthyr Tudful |
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, e.e. newidiadau yn enw'r darparwr neu'r campysau, uno, cyfuno neu newid mewn perchnogaeth | Ar ôl i'r ymddiriedolaeth hamdden gau adeilad canolfan gelfyddydau Redhouse Cymru ym mis Mai 2024, mae'r coleg wedi adleoli ei ddarpariaeth celfyddydau perfformiadol a cherddoriaeth i gampws Ynysfach.<br>Cafodd Tydfil Training Consortium ei gaffael gan y coleg ym mis Awst 2018. Mae TTC yn ddarparwr hyfforddiant lleol sy'n cynnig ystod o raglenni, gan gynnwys prentisiaethau. |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach amser llawn | 1705 (blwyddyn lawn 2023-2024) |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach rhan-amser | 600 (blwyddyn lawn 2023-2024) |
| Manylion am ddarpariaeth / rhaglenni addysg bellach y coleg (h.y. mwy ar gymeriad y coleg a'i arbenigeddau) | Mae Y Coleg Merthyr Tudful yn goleg addysg bellach cyffredinol sy'n cynnig ystod eang o raglenni addysg alwedigaethol a chyffredinol. Agorwyd campws y coleg yn Ynysfach yng nghanol tref Merthyr Tudful ym mis Medi 2013 ar ôl ad-drefnu trydyddol o fewn yr awdurdod lleol. Ar ôl cau adeilad canolfan gelfyddydau Redhouse Cymru ym mis Mai 2024, adleolodd y coleg ei ddarpariaeth celfyddydau perfformiadol a cherddoriaeth i gampws Ynysfach. Mae'r coleg yn is-gorff i Brifysgol De Cymru, gyda bwrdd cyfarwyddwyr a benodwyd gan y brifysgol.<br>Yn 2023-2024, sef y flwyddyn ddiweddaraf y mae data cenedlaethol wedi'i gyhoeddi ar ei chyfer, roedd tua 2305 o ddysgwyr wedi cofrestru yn Y Coleg Merthyr Tudful (y data |

| | |
|---|---|
| | blwyddyn lawn diweddaraf yn gysylltiedig â 2023-2024). O'r rhain, roedd 1705 yn gofrestriadau addysg bellach amser llawn, a 600 yn rhan-amser. Roedd y coleg yn cyflogi tua 114 o athrawon addysg bellach cofrestredig, a 43 o weithwyr cymorth addysg bellach cofrestredig (data cofrestredig CGA ar gyfer 2024). Dyraniad cyllid y coleg ar gyfer darpariaeth addysg bellach yn 2023-2024 oedd tua £12.0m.<br><br>Mae'r coleg wedi'i leoli ym Merthyr Tudful, sef yr awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru sydd â chyfanswm poblogaeth o ryw 58,000, ac mae o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ym Merthyr Tudful, a chofnodwyd bod 28 o'i 36 is-ardal yn y 50% uchaf o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. |
| Nifer y dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) | • Nifer y dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol: 28<br>• Nifer y dysgwyr sy'n derbyn gofal (plant sy'n derbyn gofal): 28<br>• Cyfran y dysgwyr sy'n cael cyllid o Loegr a chyllid o Gymru: Dd/b<br>• Nifer y dysgwyr sy'n mynychu fel dysgwyr dydd: Dd/b<br>• Nifer y dysgwyr sy'n mynychu fel dysgwyr preswyl: Dd/b |
| Canran y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg? | 6% |
| Nifer y dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig | 6.5% |

| | |
|---|---|
| Canran y dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (y ddau gwintel uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) | 42.75% |
| Canran y dysgwyr sy'n hawlio Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) | 33.16% |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a gyflogir yn uniongyrchol gan y coleg | 114 o athrawon addysg bellach cofrestredig a 43 o weithwyr cymorth dysgu addysg bellach cofrestredig (data Cyngor y Gweithlu Addysg 2024) |
| Perchnogaeth o'r coleg (corfforaeth addysg bellach annibynnol neu is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr sefydliad addysg uwch) | Mae'r coleg yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Prifysgol De Cymru |
| Dyddiad penodi'r Prif Weithredwr / Pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 14/11/2016 |

## Crynodeb

Mae addysgu cryf, wedi'i gynllunio'n dda, yn nodwedd nodedig yn Y Coleg Merthyr Tudful. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ymgysylltu, yn gynhyrchiol ac wedi'u cymell. Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn. Nid yw ychydig o ddysgwyr yn mynychu'n ddigon rheolaidd ac mae hyn yn effeithio ar eu cynnydd a'u deilliannau.

Mae diben clir a chyflymdra priodol i wersi. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi'n dda i wirio dysgu ac ymestyn eu dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddysgwyr ac mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wella. Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio terminoleg ac ymadroddion Cymraeg o fewn eu haddysgu. Fodd bynnag, mae dysgwyr yn aml yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn eu dysgu.

Mae'r data mesurau perfformiad cyson ôl-16 swyddogol diweddaraf ar gyfer 2022-2023 a 2023-2024 yn dangos bod dysgwyr Safon Uwch wedi cwblhau eu cymwysterau fwy neu lai yn unol â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae deilliannau galwedigaethol yn amrywio ar draws lefelau cymhwyster. Mae deilliannau mynediad at addysg uwch yn gryf.

Mae'r coleg wedi datblygu ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn ac yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol. Mae staff a dysgwyr yn gwrtais a pharchus â'i gilydd ac yn gwerthfawrogi amgylchedd y coleg. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg, a'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu barn.

Mae'r ganolfan les yn darparu cymorth hynod ymatebol ar gyfer dysgwyr.  Mae'r coleg yn hynod ragweithiol o ran rhagweld cymorth lles ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel a'r rhai sydd mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag unrhyw addysg neu hyfforddiant. Mae'r coleg wedi datblygu ystod ddefnyddiol o weithdrefnau ar gyfer nodi a chefnogi anghenion dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r coleg yn nodi ac yn monitro dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn ddigon da ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac yn gweithio'n dda i sefydlu diwylliant o ymddiriedaeth a thryloywder ar draws y coleg. Mae'r coleg yn elwa ar fwrdd cyfarwyddwyr cryf sy'n wybodus ac yn darparu craffu, cymorth a her briodol i'r pennaeth. Caiff arweinwyr canol a staff eu hysbysu'n dda ynghylch blaenoriaethau'r coleg trwy gyfarfodydd rheolaidd a gohebiaeth ddigidol. Mae morâl y staff yn uchel, ar y cyfan, ac mae staff yn falch o weithio yn y coleg.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cynnal hunanwerthusiad blynyddol manwl a thrylwyr mewn is-adrannau ac ar draws y coleg cyfan. Mae’r coleg yn cydnabod ei feysydd allweddol i’w gwella ac mae ganddo ddealltwriaeth gref o ddata perfformiad ei ddysgwyr, er nad yw’r gwerthusiad cyffredinol yn cyfeirio’n ddigonol at raddau deilliannau cymwysterau galwedigaethol. Ar hyn o bryd, nid yw presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn llywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon da.

Mae tîm o hyfforddwyr addysgu a dysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer staff i ddatblygu eu haddysgu. Mae hyn yn meithrin diwylliant cryf o arfer fyfyriol a gwelliant parhaus. Mae’r coleg yn mynd ati i hyrwyddo datblygiad medrau Cymraeg ac fe gaiff staff eu cefnogi’n dda i ymestyn eu medrau dwyieithog.

Mae gan y coleg rôl arwyddocaol mewn cefnogi’r gymuned leol ac mae’n gweithio’n dda mewn partneriaeth â’r awdurdod lleol, ysgolion a chyflogwyr. Mae’r pennaeth a’r uwch arweinwyr yn ymateb yn dda i nodweddion cymdeithasol ac economaidd y gymuned leol, gan gynnwys anghenion cyflogwyr lleol a rhanbarthol. Mae’r coleg yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n ymateb yn effeithiol i’r anghenion hyn.

Mae’r ddarpariaeth drydyddol leol yn galluogi’r coleg i weithio’n agos gyda’r awdurdod lleol ac ysgolion i fapio llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr, a defnyddio data disgyblion ysgol i lywio cynllunio’r cwricwlwm. Mae perthnasoedd effeithiol ag ysgolion lleol yn galluogi dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ddewisiadau’r cwricwlwm ôl-16. Mae cydweithio agos yn helpu dysgwyr i gael cyfnodau pontio llwyddiannus i’r coleg.

Mae’r coleg yn rhoi blaenoriaeth strategol uchel i ddysgu proffesiynol, ac mae fforwm staff a grwpiau ffocws yn galluogi staff i roi adborth ar bolisïau’r coleg a dylanwadu ar y prosesau gwneud penderfyniadau, yn cynnwys lles a baich gwaith staff.

Mae uwch arweinwyr yn cynnal goruchwyliaeth fanwl o gyllid y coleg ac yn rheoli eu cyllidebau yn effeithlon ac yn effeithiol. Caiff yr adeiladau eu cynnal i safon uchel, ac maent yn darparu amgylchedd croesawgar i ddysgwyr, staff ac ymwelwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu’r coleg i barhau i wella, sef:

A1. Cryfhau’r trefniadau ar gyfer nodi a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr

A2. Mireinio strategaethau i wella presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr

A3. Gwella defnydd dysgwyr o’r Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol ag adran 80 Deddf Dysgu a Sgiliau 200 neu adran 62 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, bydd y darparwr yn paratoi a chyhoeddi datganiad ysgrifenedig o'i gynllun gweithredu yn sgil yr adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â gwella ansawdd yr addysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae addysgu cryf, wedi'i gynllunio'n dda, yn nodwedd gyson yn y coleg hwn. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn strwythuro'u gwersi'n dda fel bod dysgwyr yn ymgysylltu, yn parhau i ganolbwyntio, ac yn datblygu arferion dysgu da. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn.

Yn aml, mae athrawon yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ffurfio'u gweithgareddau dysgu, yn unol â'u diddordebau, tra'n cynnal ffocws y sesiwn. Mae diben a chyflymdra priodol i wersi. Mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr yn dda i alw dysgu blaenorol i gof, datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, a chymhwyso hyn i gyd-destunau newydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi'n effeithiol i ysgogi ymatebion, mesur dealltwriaeth dysgwyr, ac ymestyn dysgwyr yn unol â'u galluoedd.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio strategaethau sy'n helpu dysgwyr i feddwl am sut maent yn dysgu. Mewn cyrsiau Safon Uwch, mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr strategaethau dysgu cryf ar gyfer strwythuro gwybodaeth, adolygu a threfnu eu dealltwriaeth. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio strategaethau fel amlygu, crynhoi neu gategoreiddio i'w helpu i gadw gwybodaeth a'i chymhwyso mewn cyd-destunau arholiadau.

#### Ciplun ar addysgu sy'n gyson gryf

Mar gan y coleg strategaeth addysgu a dysgu ddiffiniedig yn seiliedig ar fodel addysgu myfyriol a chydweithredol, wedi'i lywio gan ymchwil. Mae'r model hwn wedi'i wreiddio'n gadarn ar draws y coleg. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi'r strategaeth hon ar waith yn gyson, gan sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n effeithiol, eu bod yn ddifyr, a bod cyflymdra da iddynt. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu i gynorthwyo dysgwyr i adeiladu'n raddol ar wybodaeth flaenorol. O ganlyniad, mae

dysgwyr yn dangos ymgysylltiad cryf ac yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau a'u dealltwriaeth.

Mewn rhaglenni galwedigaethol, lle caiff dysgwyr weithgareddau lleoliad gwaith, ymweliadau astudio neu'n cymryd rhan mewn cystadlaethau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio'u profiad yn dda i gysylltu eu gwybodaeth ac ymestyn eu medrau. Er enghraifft, mewn gofal plant, mae dysgwyr yn cynllunio a chyflwyno gweithgaredd dysgu creadigol yn yr awyr agored ar gyfer plant mewn meithrinfa ac yn esbonio pa fedrau y bydd y gweithgaredd hwn yn eu datblygu mewn plentyn. Maent yn dysgu ac yn canu hwiangerddi Cymraeg gyda'r plant, sy'n rhoi hyder iddynt ddefnyddio'u Cymraeg yn eu hastudiaethau coleg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio technoleg gwybodaeth (TG) yn effeithiol yn eu haddysgu. O ganlyniad, mae dysgwyr yn defnyddio technolegau dysgu yn alluog, gan ddangos medrau digidol cadarn â meddalwedd safonol a phecynnau arbenigol. Er enghraifft, mewn drama Safon Uwch, mae dysgwyr yn defnyddio meddalwedd arbenigol yn hyderus i greu cyflwyniadau ac yn lanlwytho'r rhain i amgylchedd dysgu rhithwir y coleg. Mae dysgwyr technoleg cerddoriaeth lefel 3 yn creu eu gwefannau eu hunain, gan ymgorffori dolenni at y fideos cerddoriaeth y maent wedi'u creu a'u lanlwytho.

Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn dangos cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, a medrau trosglwyddadwy eraill trwy eu prif raglenni, a thrwy raglenni fel Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch (ASBW). Er enghraifft, mewn adeiladu, mae dysgwyr yn dehongli diagramau a darluniau yn gywir. Maent yn deall dimensiynau ac yn gwneud cyfrifiadau cywir ynghylch hyd, uchder ac arwynebedd. Mewn sesiwn ASBW, celf a dylunio galwedigaethol, mae dysgwyr yn creu prosiect cymunedol yn archwilio sut gellir defnyddio celf fel therapi effeithiol ar gyfer gwella iechyd meddwl.

Mewn medrau byw yn annibynnol, mae athrawon yn deall anghenion a dyheadau eu dysgwyr yn dda ac yn gosod targedau defnyddiol i ddysgwyr weithio tuag atynt. Mae dysgwyr yn ymateb yn dda i adborth gan eu hathrawon. Mae'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn bwyllog, yn rheoli eu hemosiynau'n dda, ac yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi ymgysylltu, yn gynhyrchiol ac wedi'u cymell. Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau eu gwersi ac yn mynd ati i wneud tasgau â brwdfrydedd. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos parch ac yn cefnogi eu cyfoedion. Er enghraifft, mewn dosbarth medrau hanfodol lefel 1, tra bod yr athro'n brysur yn helpu dysgwr, mae dysgwyr eraill yn gweithio'n annibynnol ac yn cynorthwyo'i gilydd hyd nes bod yr athro ar gael.

Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr, yn enwedig ar raglenni lefel 1 a lefel 2 ac ychydig o gyrsiau penodol, yn mynychu'n ddigon rheolaidd, ac mae hyn yn effeithio ar eu cynnydd

a'u deilliannau. Yn enwedig ar y lefelau hyn, nid oes gan ychydig o ddysgwyr hyder i gyfrannu at drafodaethau grŵp neu ddosbarth cyfan. Mae hyn yn rhwystro'u gallu, er enghraifft, i feirniadu eu gwaith nhw neu waith dysgwyr eraill neu i ddatblygu syniadau.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos dyfalbarhad pan fyddant yn wynebu cysyniadau cymhleth, gan ddefnyddio strategaethau i oresgyn heriau. Er enghraifft, mae dysgwyr Safon Uwch yn dangos gwydnwch wrth feistroli cysyniadau heriol fel Deddf Faraday mewn ffiseg, meiosis mewn bioleg, swyddogaethau tebygolrwydd mewn mathemateg bellach, a dewisiadau treiglo mewn Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu adborth effeithiol i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn gwneud. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae dysgwyr lefel 3 yn dangos dealltwriaeth glir o'u targedau academaidd a sut i berfformio'n well yn eu hasesiadau, a gallant ddisgrifio'u cynnydd yn hyderus.

Ar draws ystod y ddarpariaeth yn y coleg, mae academïau pynciau yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr o bob gallu ymestyn eu hunain ac anelu at wneud eu gorau glas. Er enghraifft, mae'r Academi Mathemateg a Gwyddoniaeth yn cynnwys mewnbwn gan siaradwyr gwadd a chymorth ar gyfer technegau cyfweld a gwneud cais i gyrsiau meddygaeth neu gyrsiau prifysgol hynod gystadleuol eraill.

Mae athrawon yn dechrau defnyddio gweithgareddau gwrth-hiliol effeithiol yn eu gwersi. Mae ychydig o ystafelloedd dosbarth yn arddangos modelau rôl o gefndiroedd amrywiol, gan ddod â'u safbwyntiau i drafodaethau dosbarth sy'n ychwanegu dyfnder at y dysgu. Er enghraifft, mae ystafell ddosbarth mathemateg yn amlygu dylanwad Al-Khwarizmi, y polymath o Bersia, ac mewn gwers gymdeithaseg Safon Uwch, mae dysgwyr yn myfyrio'n feirniadol ar wahaniaethau hiliol mewn addysg.

Mae datblygu defnydd athrawon a dysgwyr o'r Gymraeg yn un o flaenoriaethau datblygu'r coleg ei hun. Mae mwyafrif o athrawon yn dechrau defnyddio terminoleg ac ymadroddion Cymraeg yn rhan o'u haddysgu bob dydd. Mae cynorthwywyr cymorth addysgu Cymraeg yn darparu cymorth gwerthfawr yn y dosbarth i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ochr yn ochr â gweithgareddau eraill i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i diwylliant. Fodd bynnag, yn aml, mae dysgwyr yn amharod i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhan o'u dysgu.

Mewn meysydd pwnc lle rhoddir blaenoriaeth alwedigaethol i ddefnyddio'r Gymraeg, fel iechyd a gofal cymdeithasol, diwydiannau creadigol neu ofal plant, mae lleiafrif o ddysgwyr yn magu hyder ac yn defnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u hastudiaethau, ac mae cyfran y dysgwyr sy'n gwneud rhyw elfen o'u rhaglen yn ddwyieithog wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn ymgorffori geiriau Cymraeg yn eu caneuon ac yn perfformio mewn

lleoliadau Cymraeg. Y tu allan i'r meysydd blaenoriaeth, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n defnyddio neu'n ymarfer eu Cymraeg mewn cyd-destunau dysgu neu gymdeithasol.

Data deilliannau swyddogol diweddaraf y coleg yw'r data mesurau cyson ôl-16 ar gyfer 2022-2023 a 2023-2024. Mae hyn yn dangos y bu dysgwyr Safon Uwch yn cwblhau eu cymwysterau yn unol â chyfartaleddau cenedlaethol, at ei gilydd. Roedd deilliannau rhaglenni galwedigaethol yn amrywio. Cwblhaodd dysgwyr lefel 3 eu cymwysterau ychydig uwchlaw cymaryddion cenedlaethol, lefel 2 ychydig yn is, tra bu gwelliant sylweddol yng nghyfraddau cwblhau dysgwyr lefel 1 o fod ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn 2022-2023 i fod gryn dipyn yn uwch yn 2023-2024. Llwyddodd oedolion sy'n ddysgwyr ar raglenni mynediad i addysg uwch i gyflawni'n sylweddol uwchlaw cymaryddion cenedlaethol trwy gydol y cyfnod hwn. Ar hyn o bryd, nid oes data cenedlaethol ar berfformiad o gymharu â dysgwyr o ddemograffeg debyg ar gael ar gyfer 2023-2024.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cyfraddau cwblhau yn llwyddiannus ar lefel 2
- Deilliannau gradd uwch ar lefel 3
- Presenoldeb a phrydlondeb lle maent yn wan
- Defnydd dysgwyr o'r Gymraeg

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r coleg wedi datblygu ymdeimlad cryf o gymuned a pherthyn. Mae staff a dysgwyr ar draws y coleg yn gwrtais a pharchus â'i gilydd ac yn gwerthfawrogi amgylchedd y coleg. Mae diwylliant o ddathlu a diben yn amlwg mewn arddangosfeydd o waith creadigol dysgwyr ar draws y coleg, a datganiadau dyheadol mewn gofodau cymunol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod staff yn gwrando ar eu barn. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod y gallant drafod unrhyw bryderon gyda'u tiwtoriaid cwrs neu ymweld â'r hyb lles, a siarad â staff cymorth lles.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sy'n ystyriol o drawma, ac mae cymorth ar gyfer lles dysgwyr yn gryfder arbennig ar draws y coleg. Mae polisi ymddygiad y coleg wedi cael ei ddisodli â pholisi 'cyfrifol wrth astudio', sy'n cydnabod pwysigrwydd cefnogi dealltwriaeth staff a dysgwyr o resymau gwaelodol am ymddygiad amhriodol a allai darfu ar astudiaethau dysgwyr. O ganlyniad, gall staff nodi ac ymateb yn effeithiol i anghenion dysgwyr, ac mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd gofalgar a chefnogol y coleg.

Mae canolfan les y coleg yn darparu system gymorth hynod ymatebol a chydweithredol ar gyfer pob un o’r dysgwyr. Mae’r cynnig lles yn cynnwys cyngor, arweiniad a chymorth ar ystod eang o agweddau, gan gynnwys iechyd meddwl a diogelu, a mewnbwn therapiwtig gan nyrs a chwnselydd. Ceir gofod aml-ffydd a myfyrio, y gellir hefyd ei ddefnyddio gan ddysgwyr y mae angen lle tawel arnynt. Gall dysgwyr ymweld â’r ganolfan les ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod coleg. Gallant hefyd wneud atgyfeiriad am gymorth ar borth dysgwyr y coleg. Mae’r ganolfan les hefyd yn darparu cyfle i fanteisio ar y llyfrgell, llyfrau ac e-lyfrau, ochr yn ochr â gofodau dysgu eraill, er enghraifft yr ardal gymorth ar gyfer y Gymraeg, ac mae bron pob un o’r dysgwyr yn ystyried bod hon yn elfen gref o’r amgylchedd dysgu.

Mae’r coleg yn rhagweithiol o ran rhagweld cymorth lles ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel. Er enghraifft, darparodd ffair les ar ddiwedd tymor yr hydref adnoddau defnyddiol ar gyfer dysgwyr tra roedd y coleg ar gau, gan gynnwys iechyd rhywiol a chynhyrchion urddas mislif. Mae’r coleg yn cydweithio â’r awdurdod lleol i gynorthwyo dysgwyr y tybir eu bod mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag unrhyw addysg neu hyfforddiant, gan gynnwys dysgwyr nad yw eu profiad blaenorol o addysg wedi bod yn yr ysgol. Mae gweithwyr cymorth lles yn helpu dysgwyr i fynd i’r afael â rhwystrau fel cyfrifoldebau gofal a chludiant, ac yn eu helpu i sicrhau gwaith rhan-amser pan fydd angen iddynt gyfrannu at incymau aelwyd. Mae bron pob un o’r dysgwyr sydd wedi cael y cymorth personoledig hwn wedi cwblhau eu rhaglenni astudio.

### Ciplun ar y cynnig cymorth lles, gan gynnwys gwaith y coleg gyda dysgwyr dan anfantais

Mae cymorth ar gyfer lles dysgwyr yn cynnwys gweithwyr cymorth lles dynodedig sy’n gweithio mewn rolau gweithwyr allweddol gyda dysgwyr i’w cynorthwyo i reoli amgylchiadau personol a allai effeithio ar eu cyfnod pontio i’r coleg a’u hastudiaethau pan fyddant yn dechrau yno. Mae’r coleg yn gweithio’n agos gyda’i awdurdod lleol i nodi dysgwyr sydd mewn perygl o roi’r gorau i’w haddysg, ac yn darparu ysgolion haf a chymorth ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl dysgwyr. Byddant hefyd yn mynd gyda dysgwyr i apwyntiadau, yn eu helpu i ysgrifennu ceisiadau, yn mynd i’r afael â chyfrifoldebau gofalu, cludiant a materion yn gysylltiedig â thlodi. Mae’r coleg yn cynnal ffeiriau lles trwy gydol y flwyddyn sy’n galluogi dysgwyr i gasglu eitemau hanfodol i gefnogi eu lles tra bydd y coleg ar gau dros y gwyliau.

Mae perthnasoedd effeithiol ag ysgolion lleol yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am ddewisiadau cwricwlwm ôl-16. Mae swyddogion pontio yn gweithio’n dda gydag ysgolion lleol i gynnig cyngor ac arweiniad i ddisgyblion, er enghraifft ar gyrsiau sydd ar gael yn y coleg, cymorth â cheisiadau, a chynnig ffug gyfweliadau. Mae’r cydweithio hwn yn arwain at gyfnodau pontio llwyddiannus o ysgolion i’r coleg. Mae’r rhan

fwyaf o'r dysgwyr yn cael cyngor ac arweiniad buddiol i wneud penderfyniadau ar ddiwedd eu cwrs coleg.

Mae dysgwyr yn dylanwadu ar fywyd y coleg a gwneud penderfyniadau trwy gynrychiolwyr cyrsiau ac is-adrannau, a Senedd Dysgwyr y coleg. Mae awgrymiadau gan Senedd y Dysgwyr, er enghraifft darparu mannau hydradu ar draws y coleg a chyflwyno opsiynau bwyd sy'n fwy amrywiol yn ddiwylliannol yn ffreutur y coleg, wedi cael eu mabwysiadu'n llwyddiannus gan y coleg.

Mae'r coleg yn darparu cyfleoedd cyfoethogi gwerthfawr ar gyfer ei ddysgwyr mwy abl a thalentog trwy leoliadau, tripiau a gweithdai. Er enghraifft, mae'r coleg yn codi uchelgais a hyder dysgwyr o fewn yr adrannau peirianneg ac adeiladu trwy academi arloesol, a noddir gan ddiwydiant, sy'n annog 25 o ddysgwyr a ddewiswyd i ddod yn arweinwyr, yn llysgenhadon ac yn eiriolwyr dros eu cyrsiau, eu his-adran a'r coleg. Mae aelodau o'r academi yn ymfalchïo yn eu rolau, a thrwy eu hangerdd a'u hawydd i lwyddo, yn helpu codi dyheadau a disgwyliadau dysgwyr eraill.

### Ciplun ar raglen academi arloesol a dyheadol ar gyfer dysgwyr peirianneg ac adeiladu

Mae'r academi Gweithgynhyrchu Uwch a'r Amgylchedd Adeiledig (AMBE) yn darparu cyfoethogi buddiol ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog y coleg, gan gynnwys cyfleoedd i ddod yn arweinwyr, yn llysgenhadon ac yn eiriolwyr dros eu cyrsiau, eu his-adrannau a'r coleg. Caiff pob aelod o'r academi ei noddi gan gwmni lleol, ac yn cael hyfforddiant gwerthfawr mewn techneg gyfweld wedi'i harwain gan ddiwydiant a allai arwain at brentisiaeth gyda'r cwmni.

Mae aelodau o'r AMBE hefyd yn arwain ar nosweithiau agored, yn cynnal digwyddiadau cyfarfod a chyfarch gyda darpar arweinwyr, yn esbonio rhaglenni, yn rhoi trosolygon o'u taith dysgwr ac yn helpu chwalu unrhyw rwystrau a allai atal darpar ddysgwyr rhag mynychu'r coleg. Mae aelodau o'r academi yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod eu cynlluniau a'u hadborth mewn cyfarfodydd meysydd rhaglen is-adrannol. Mae aelodau o'r academi yn ymfalchïo yn eu rolau, a thrwy eu hangerdd a'u hawydd i lwyddo, maent yn codi dyheadau a disgwyliadau dysgwyr eraill.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos ystyriaeth a pharch at eu grŵp dysgu cyfoedion, dysgwyr y campws ehangach a staff. Cynorthwyir dysgwyr i ddatblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth. Er enghraifft, mae'r grŵp LHDTC+ dan arweiniad dysgwyr yn arwain digwyddiadau ar draws y coleg ac mae'r rhaglen diwtorial yn ymdrin â thestunau gan gynnwys iechyd meddwl, gwrth-hiliaeth, bwyta'n iach a diogelwch personol.

Mae’r coleg wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer nodi anghenion dysgu. Fodd bynnag, ni chaiff anghenion dysgwyr a’r cymorth sydd ei angen i’w diwallu eu deall yn gyson gan staff addysgu a staff cymorth. Nid yw’r coleg yn gwahaniaethu’n effeithiol rhwng dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r dysgwyr hynny y gall y cymorth sydd fel arfer ar gael yn y coleg ddiwallu eu hanghenion. Ar hyn o bryd, nid yw’r coleg yn nodi ac yn monitro anghenion dysgwyr unigol yn ddigon da.

Yn ystod y cyfnod ymsefydlu, caiff dysgwyr arweiniad buddiol ar gadw eu hunain yn ddiogel ac yn rhydd rhag radicaleiddio ac eithafiaeth, ac fe gaiff hyn ei ailbwysleisio yn ystod sesiynau tiwtorial trwy gydol y flwyddyn. Mae’r arweiniad hwn hefyd ar gael ar-lein trwy’r porth dysgwyr. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn gwybod sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein ac mae’r coleg yn defnyddio meddalwedd fonitro yn dda i ddiogelu eu dysgwyr a nodi’r rhai sydd mewn perygl.

I wella ymhellach, dylai’r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Trefniadau ar gyfer nodi a monitro a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr.

## Arwain a gwella

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol trwy weithio gyda’r uwch dîm arweinyddiaeth sy’n cynnwys dau is-bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol. Mae’r pennaeth a’r uwch dîm arweinyddiaeth yn gweithio’n dda i sefydlu diwylliant o ymddiriedaeth a thryloywder ar draws y coleg, ac o ganlyniad, mae morâl staff yn uchel, ar y cyfan, ac mae staff yn falch o weithio yn y coleg.

Mae’r pennaeth, a gefnogir gan yr uwch dîm arweinyddiaeth, yn rhoi cyfeiriad clir i’r coleg sy’n cefnogi datganiad cenhadaeth y coleg, sef ‘trawsnewid bywydau trwy gydweithio’. Mae dogfen gynhwysfawr blaenoriaethau strategol 2024-2030 yn nodi pedair thema allweddol sy’n canolbwyntio’n glir ar bobl a diwylliant, profiadau dysgu, lle yn y gymuned ac adnoddau a’r amgylchedd. Mae gan y themâu hyn rôl allweddol mewn gyrru cynllunio strategol a gweithredol. Mae uwch arweinwyr yn gwneud yn siŵr fod arweinwyr canol a staff yn cael eu hysbysu’n dda am flaenoriaethau’r coleg trwy gyfarfodydd rheolaidd a chyfathrebu digidol.

Caiff arweinwyr canol eu cefnogi’n dda a’u herio’n briodol gan yr uwch dîm arweinyddiaeth i gyflawni eu rolau yn effeithiol. Mae cyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd yn helpu datblygu amgylchedd gweithio cefnogol ymhellach. Caiff cynnydd yn erbyn targedau ei adolygu’n rheolaidd i ddarparu mesur clir o effaith y camau gweithredu hyn yn erbyn targedau.

Mae'r coleg yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Prifysgol De Cymru, ond mae ganddo'i hunaniaeth glir ei hun ac yn gweithredu ag ymreolaeth. Mae'r coleg yn elwa ar fwrdd cyfarwyddwyr cryf. Maent yn wybodus ac yn darparu lefel uchel o graffu, cymorth a her i'r pennaeth. Maent yn deall eu rolau yn drylwyr ac yn dod â chyfoeth o brofiad strategol addysgol i'r rolau. Yn ddiweddar, mae'r bwrdd wedi penodi aelodau newydd sydd ag ystod helaeth o fedrau, gwybodaeth a phrofiad. Mae dysgwr sy'n gadeirydd Senedd Dysgwyr y coleg yn aelod o'r bwrdd, hefyd.

Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o'r buddion effeithlonrwydd a enillir trwy fod yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Prifysgol De Cymru. Mae'n prynu gwasanaethau allweddol i mewn gan y brifysgol, fel adnoddau dynol ac yswiriannau. Mae hefyd yn gwneud effeithlonrwydd trwy gael ynni gan yr un cyflenwr gan arbed costau sylweddol.

Mae uwch arweinwyr yn cynnal goruchwyliaeth fanwl o gyllid y coleg ac yn rheoli eu cyllidebau yn effeithlon ac yn effeithiol. Maent yn rheoli risg gwariant yn ofalus ac yn fanwl, ac yn rhoi ystyriaeth gadarn i dueddiadau lleol a chenedlaethol. Mae arweinwyr yn defnyddio'u cyllideb yn dda i wneud yn siŵr fod adeiladau'n cael eu cynnal i safon uchel ac yn parhau i fod yn amgylchedd croesawgar i ddysgwyr, staff ac ymwelwyr. Maent yn cynllunio'n dda i wneud yn siŵr fod gan athrawon a dysgwyr adnoddau o ansawdd da sydd eu hangen arnynt, gan gynnwys cyfrifiaduron, peiriannau ac offer sefydlog mewn gweithdai ac ystafelloedd dosbarth.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau allweddol y ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella. Maent yn cynnal hunanwerthusiad adrannol a throsfwaol manwl a thrylwyr bob blwyddyn. Cefnogir y trefniadau hyn gan ddata defnyddiol a dadansoddiad o berfformiad dysgwyr. Defnyddir y dadansoddiad hwn yn dda i lywio gwelliant ansawdd a gosod cerrig milltir i fonitro effeithiolrwydd y rhan fwyaf o gamau gweithredu.

Ar hyn o bryd, nid yw data presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr yn llywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon da. Mae gan y coleg arfarniad realistig o'i ddata perfformiad dysgwyr 2023/2024. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthuso cyffredinol yn cyfeirio'n ddigonol at raddau deilliannau cymwysterau galwedigaethol.

Mae'r coleg yn chwarae rôl sylweddol yn cefnogi'r gymuned leol. Mae'r coleg yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, ysgolion a chyflogwyr i godi'r safonau a'r ymgysylltiad ag addysg a hyfforddiant, ac yn cefnogi adferiad economaidd yn yr ardal leol. Mae'r coleg yn gweithio mewn partneriaeth gref ag ysgolion lleol, yr awdurdod lleol, cyflogwyr, a Phartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd De-ddwyrain Cymru (CCRSP) i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ymateb yn effeithiol i anghenion lleol a rhanbarthol. Mae'r coleg yn chwarae rôl weithredol yn y CCRSP, gan ddefnyddio'i gynrychiolaeth ar grwpiau clwstwr i lywio penderfyniadau strategol. Mae'r ymgysylltiad

hwn gyda chyflogwyr yn helpu nodi prinderau mewn medrau a ffurfio darpariaeth i ddiwallu anghenion diwydiant. Enghraifft nodedig yw cyflwyno Cynllun Cadetiaid y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN).

Mae'r ddarpariaeth drydyddol leol yn galluogi'r coleg i weithio'n agos â'r awdurdod lleol a'r ysgolion i fapio llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr. Mae uwch arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ddata disgyblion ysgolion i lywio cynllunio'r cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol, gan lywio addasiadau ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn y dyfodol.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddarparu llwybrau dilyniant symlach ac effeithiol sydd nid yn unig yn codi dyheadau dysgwyr ond hefyd yn amlygu cyfleoedd swyddi realistig. Mae'r coleg yn aelod o Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful ac yn cyfrannu at ailosod a gweithgarwch dilynol presennol y bartneriaeth honno ar ôl ei harolygiad diweddar gan Estyn. Mae'r coleg yn defnyddio'i berthynas waith agos â Phrifysgol De Cymru i adolygu darpariaeth addysg uwch a nodi bylchau yn y ddarpariaeth.

Defnyddir cyllid y Cyfrif Dysgu Personol (CDP) yn strategol i gefnogi datblygiad medrau wedi'i arwain gan gyflogwyr, gan gynnwys anghenion y gweithlu yn gysylltiedig â phrosiect mawr i adeiladu ffordd. Mae'r coleg wedi defnyddio'r cyllid hwn i gyflwyno hyfforddiant y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) lefel is a medrau cloddio sylfaenol.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i feithrin gweithlu mwy amrywiol trwy fentrau fel prosiect Menywod mewn Adeiladu. Mae cydweithio â Phartneriaeth Peirianneg y Cymoedd yn cryfhau cyfleoedd dilyniant ymhellach ar gyfer dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11, gan eu cefnogi wrth iddynt ddechrau gyrfaoedd yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM).

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arweinyddiaeth yn rhoi blaenoriaeth strategol uchel i ddarparu dysgu proffesiynol cryf i staff. Caiff staff ystod eang o gyfleoedd trwy fforwm staff a grwpiau ffocws i roi adborth ar bolisïau'r coleg a dylanwadu ar y prosesau gwneud penderfyniadau fel lles a baich gwaith staff.

Mae tîm ymroddgar o wyth o athrawon profiadol yn gweithredu fel hyfforddwyr addysgu a dysgu. Maent yn darparu cymorth gwerthfawr i staff i ddatblygu eu haddysgu trwy ddefnyddio cynlluniau dysgu a datblygiad proffesiynol (CDDP). Mae'r broses hon yn galluogi staff i nodi eu hanghenion datblygu ac yn meithrin diwylliant cryf o arfer fyfyriol a gwelliant parhaus. O ganlyniad, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau dysgu sy'n hyrwyddo ymgysylltiad dysgwyr ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y dysgu.

**Ciplun ar ddarparu datblygiad dysgu proffesiynol grymusol**

Mae'r ddarpariaeth datblygiad dysgu proffesiynol yn grymuso athrawon i fyfyrio ar eu harfer addysgu i archwilio meysydd y maent wedi nodi bod angen eu gwella neu heriau y mae angen iddynt eu goresgyn. Caiff hyn ei reoli'n dda ac mae proses werthusol yn annog ymchwil weithredu sy'n cynorthwyo athrawon i archwilio a threialu dulliau newydd.

Mae diwylliant hyfforddi yn sail i'r ddeialog broffesiynol ddilynol sy'n uchafu'r effaith i'r athro. Mae staff yn gwerthfawrogi'r rhaglen hon ac yn falch o'r gwaith y maent yn ei wneud trwy'r broses hon. Caiff canfyddiadau o'r arferion hyn eu lledaenu trwy'r gynhadledd addysgu a dysgu flynyddol.

Mae'r CDDP wedi hen ennill ei blwyf yn y coleg ac yn amlwg wedi ymestyn y profiadau dysgu, gan yrru diwylliant o welliant parhaus ac arfer fyfyriol. Caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu dangos yn glir mewn llawer o sesiynau trwy weithgareddau dysgu amrywiol sy'n hyrwyddo ymgysylltiad gwell gan ddysgwyr a thechnegau holi datblygedig sy'n procio ac yn herio, gan ddyfnhau dysgu.

Caiff staff newydd gymorth strwythuredig trwy broses ymsefydlu gynhwysfawr sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer gofynion yr ystafell ddosbarth. Mae'r coleg yn mynd ati i hyrwyddo datblygiad medrau Cymraeg trwy'r cynllun Cymraeg Gwaith a chydweithio â Sgiliaith, gan sicrhau bod staff yn cael cymorth da i ymestyn eu medrau dwyieithog.

I wella ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cryfhau dadansoddi cymwysterau galwedigaethol i wella deilliannau graddau uwch
- Mireinio strategaethau ac arferion i wella presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn achosi unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, gweithdy ac ar-lein ar draws y ddarpariaeth
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  05/06/2025